**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

—

**Standards of Conduct Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddSafonau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddSafonau
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddStandards@senedd.wales
senedd.wales/SeneddStandards
0300 200 6565

Julie James, y Cwnsler Cyffredinol
Drwy e-bost

Mai 2025

Diwygio Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

Annwyl Julie,

Rwy'n croesawu eich ymrwymiad yn y rhaglen ddeddfwriaethol i gyflwyno Bil Atebolrwydd Aelodau Unigol o'r Senedd, a fydd yn ceisio mynd i'r afael ag argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") mewn perthynas ag adalw a dichell fwriadol.

Cyn y gofynnwyd iddo ymgymryd â'r gwaith adalw a dichell, roedd y Pwyllgor eisoes wedi ystyried nifer o ddiwygiadau posibl eraill i Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009. Mae'r diwygiadau hyn wedi'u nodi dros y deuddeg mlynedd diwethaf o ganlyniad i achosion sydd wedi'u penderfynu a phrofiad ymarferol o weithrediad y Mesur mewn amgylchedd safonau deinamig a newidiol.

Mae'r newidiadau a nodwyd gan y Pwyllgor wedi'u hamlinellu yn y papur atodedig a luniwyd gan Brif Gynghorydd Cyfreithiol y Senedd ac y cytunwyd arno gan y Pwyllgor. Mae'r diwygiadau ynddynt eu hunain yn gymharol fach a byddai'n fwy effeithlon cynnwys y rhain yn y Bil rydych yn ei baratoi, yn hytrach na cheisio dod o hyd i fwy o amser deddfwriaethol i ddiwygio deddfwriaeth ymhellach i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol hyn i weithrediad y Mesur.

Byddwn yn hapus i gwrdd a thrafod y cynigion hyn a'r angen amdanynt ymhellach, pe byddai hynny o gymorth.

Yn gywir

Hannah Blythyn

Hannah Blythyn AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Diwygio Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

Cyflwyniad

1. Mae Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd yn ei adroddiadau ar Atebolrwydd Aelodau Unigol o'r Senedd wedi gwneud argymhellion sy'n gofyn am ddeddfwriaeth, gan gynnwys diwygio Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.[1] Yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys argymhellion ar gyfer pleidlais "diswyddo a disodli" fel sancsiwn am dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau a rhoi'r pŵer i Gomisiynydd Safonau'r Senedd gychwyn ymchwiliadau i gamymddwyn a amheuir ar liwt y Comisiynydd ei hun.

2. Cyn ei adroddiadau diweddar ar Atebolrwydd Aelodau Unigol, mae'r Pwyllgor wedi ystyried ystod o ddiwygiadau eraill i Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ("y Mesur"), sydd wedi aros i raddau helaeth yn ei ffurf wreiddiol ers iddo gael ei ddeddfu. Ar 10 Gorffennaf 2023, cytunodd y Pwyllgor ar adroddiad gan y Prif Gynghorydd Cyfreithiol yn cyfeirio at ddiwygiadau yr oedd profiad y Pwyllgor a'r Comisiynydd wedi awgrymu y byddai'n gwella gweithrediad y Mesur a hefyd yn diweddaru ei ddarpariaethau mewn rhai agweddau (er enghraifft, cyflwyno dogfennau'n electronig) a nodwyd rhai ohonynt hefyd yn Adroddiad Etifeddiaeth Pwyllgor Safonau'r Bumed Senedd.[2] Ers hynny, mae'r Comisiynydd wedi tynnu sylw at ddau fater arall a fyddai'n elwa o ddiwygio'r Mesur ac mae'r rhain hefyd wedi'u nodi isod.[3]

3. Trafododd papur y Prif Gynghorydd Cyfreithiol y cysyniad dymunol y bydd gan y Comisiynydd y pŵer i gychwyn ymchwiliadau heb yr angen am gŵyn trydydd parti. Mae'r diwygiad hwn bellach wedi'i argymell fel rhan o adroddiad y Pwyllgor ar Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell Fwriadol.[4] Mae ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwnnw, a osodwyd ar 16 Mawrth 2025, wedi derbyn yr

---

[1] **cr-ld16929-w.pdf** ac **Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol**

[2] **Adroddiad Etifeddiaeth y Bumed Senedd**

[3] Defnyddio cwestiynau ysgrifenedig (paragraff 8.4) a'r rhesymau dros anghymhwystra i gael eich penodi'n Gomisiynydd (paragraffau 12 a 13)

[4] Gweler Argymhelliad 6

argymhelliad hwnnw ac wedi ymrwymo i gyflwyno darpariaeth ddeddfwriaethol o fewn y Bil i sefydlu system adalw.

4. Mae'r materion eraill y mae'r Pwyllgor yn dymuno eu gweld yn cael eu diwygio yn y Mesur wedi'u nodi yn y papur hwn.

5. Mae fersiwn o'r papur hwn wedi'i hystyried gan y Pwyllgor Safonau, sydd hefyd wedi cymryd tystiolaeth breifat gan y Comisiynydd Safonau. Mae'r Comisiynydd yn gefnogol i'r diwygiadau a drafodir yn y papur hwn. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd rai sylwadau sydd bellach wedi'u hymgorffori yn y fersiwn hon o'r papur. Yn amodol ar ymgorffori'r sylwadau hynny, mae'r papur wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau.

Hunan-atgyfeirio gan Aelod

6. O bryd i'w gilydd, caiff Aelodau y mae eu hymddygiad yn destun beirniadaeth geisio cyfeirio eu hunain at y Comisiynydd fel y gellir ymchwilio i'w hymddygiad. Nid yw'n gwbl glir a yw swyddogaethau'r Comisiynydd o dan adran 6(1) a (2) o'r Mesur yn cynnwys ystyried cwyn pan fo'r achwynydd yn Aelod sy'n cyfeirio eu hymddygiad eu hunain. Mae'r Pwyllgor yn dymuno dileu pob amheuaeth ynghylch hyn a gweld darpariaeth bod cwyn yn cynnwys atgyfeiriad gan Aelod amdano ei hun.

7. Os bydd Aelod yn cyhoeddi ei fod yn bwriadu cyfeirio ei hun at y Comisiynydd ond yn methu â gwneud hynny wedyn, bydd bodolaeth y pŵer a gynigiwyd eisoes i'r Comisiynydd gychwyn ymchwiliad yn sicrhau y gall y Comisiynydd fynd i'r afael â'r mater ei hun os na fydd atgyfeiriad yn cyrraedd a gall methiant ag atgyfeirio, unwaith y cyhoeddir y bwriad, ynddo ei hun ddwyn anfri ar y Senedd.

Rhwystro'r Comisiynydd

8. Pan oedd cwyn yn erbyn Aelod yn cael ei ystyried, cofnododd Pwyllgor Safonau'r Bumed Senedd fod aelod o staff yr Aelod hwnnw wedi ceisio perswadio tystion i beidio â rhoi tystiolaeth. Er bod achosion o'r fath yn brin, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid gwneud darpariaeth i atal ymddygiad o'r fath, fel yr argymhellwyd yn Adroddiad Etifeddiaeth y Bumed Senedd.[5] Mae'r Mesur eisoes yn creu nifer o droseddau fel y nodir yn adran 15(1). Mae'r Pwyllgor yn dymuno gweld trosedd ychwanegol o rwystro ymchwiliad, neu ymyrryd ag ymchwiliad, sy'n cael ei gynnal gan y Comisiynydd yn cael ei hychwanegu at y troseddau presennol. Gellir dod o hyd i gynsail ar gyfer trosedd o'r fath yn adran 23 o Ddeddf Addysg 2005 sy'n ymwneud â rhwystro arolygiad ysgol.

Rhoi Hysbysiad drwy Ddulliau Electronig a Defnyddio Fideo

9. Pan basiwyd y Mesur yn 2009, nid oedd rhoi hysbysiad ac ymgysylltu â thystion yn cwmpasu defnyddio dulliau electronig. Mae'r Pwyllgor yn dymuno gweld darpariaethau adrannau 11 a 12 o'r Mesur, sy'n

[5] Ym mharagraff 50

galluogi'r Comisiynydd i alw am dystion ac yn darparu ar gyfer rhoi hysbysiad, yn cael eu diweddaru i ganiatáu:

8.1 Rhoi hysbysiad drwy ddulliau electronig a chymhwyso adran 13(2) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

8.2 Llunio dogfennau drwy ddulliau electronig.

8.3 Ymgysylltu â thystion (gan gynnwys eu holi ar lw) drwy gyswllt fideo fel dewis arall i fod yn bresennol yn y cnawd.

8.4 I'r Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i berson ateb cwestiynau ysgrifenedig fel dewis arall i roi tystiolaeth wyneb yn wyneb.[6]

<u>Defnyddio Cyfieithwyr</u>

10. Pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu rhoi tyst ar lw o dan adran 13 o'r Mesur, nid yw'r pwerau i weinyddu llw yn cwmpasu'r sefyllfa pan fo'r tyst yn dymuno gwneud hynny mewn iaith nad yw'r Comisiynydd yn gyfarwydd â hi, sy'n golygu bod angen defnyddio cyfieithydd. Mae'r Pwyllgor felly'n dymuno gweld pwerau'r Comisiynydd i weinyddu llw yn cael eu hymestyn i gynnwys y pŵer i weinyddu llw neu gadarnhad i gyfieithydd.

<u>Cyfrinachedd yr Aelodau sy'n destun ymchwiliad</u>

11. Mae'r darpariaethau cyfrinachedd llym presennol o dan adran 16 o'r Mesur yn atal y Senedd a'r Comisiynydd rhag mabwysiadu darpariaethau sy'n berthnasol ar hyn o bryd mewn deddfwrfa arall sy'n darparu ar gyfer mwy o dryloywder ynghylch cwynion sy'n cael eu gwneud, megis y trefniadau mewn perthynas ag ymchwiliadau i Aelodau o Dŷ'r Cyffredin.

12. Ar hyn o bryd, mae adran 16 yn atal y Comisiynydd rhag hyd yn oed ymateb i gwestiynau sy'n codi o ddatganiadau i'r cyfryngau ynghylch a yw cwyn wedi dod i law swyddfa'r Comisiynydd ai peidio. Mae telerau cyfyngol presennol adran 16, wedi'u hymgorffori mewn deddfwriaeth sylfaenol, yn ei gwneud yn anodd addasu rhwymedigaethau tryloywder a chyfrinachedd y Comisiynydd wrth i amgylchiadau newid.

13. Dull mwy hyblyg fyddai diddymu adran 16 a diwygio adran 10(1) o'r Mesur sy'n ei gwneud yn ofynnol i Reolau Sefydlog gynnwys darpariaethau ynghylch datgelu gwybodaeth am ymchwiliadau gan y Comisiynydd.

---

[6] Dyma un o'r materion ychwanegol a godwyd gan y Comisiynydd a grybwyllir ym mharagraff 2.

Adfer colledion oherwydd camddefnyddio adnoddau

14. Pan ganfuwyd bod Aelod wedi camddefnyddio adnoddau'r Senedd ac o ganlyniad cafwyd colled i'r Comisiwn, mae'r Pwyllgor yn dymuno gweld darpariaeth i alluogi'r Comisiwn i adennill y symiau hynny oddi wrth yr Aelod (neu'r cyn-Aelod) fel dyled.

Anghymhwystra i gael eich penodi'n Gomisiynydd[7]

15. Mae'r Comisiynydd wedi tynnu sylw'r Pwyllgor yng nghyd-destun yr ymchwiliadau diweddar i Atebolrwydd Aelodau Unigol at rai materion ynghylch y rhesymau dros wneud person yn anghymwys i gael ei benodi'n Gomisiynydd. Mae'r Comisiynydd yn awgrymu y gall y cyfnod o ddwy flynedd o anghymhwystra cyn-Aelodau'r Senedd neu staff y Senedd neu Lywodraeth Cymru bellach fod yn rhy fyr ac y gallai'r person hwnnw barhau i fod, neu o leiaf gellid ystyried ei fod, yn rhy agos at yr Aelod y cwynwyd amdano a hefyd at dystion.  Am y rheswm hwnnw hefyd mae'r Comisiynydd yn awgrymu cynnwys staff cymorth yr Aelodau fel sail amlwg o anghymhwystra. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi nodi bod Cwnsler Cyffredinol nad yw'n Aelod o'r Senedd wedi'i hepgor o'r rhestr.

16. Er mwyn galluogi'r Senedd i ymgynghori ar ddiwygio'r rhesymau dros anghymhwystra a'u diweddaru o bryd i'w gilydd, mae'r Pwyllgor yn dymuno gweld y Mesur yn cael ei ddiwygio i ddileu'r rhestr bresennol a'i gwneud yn ofynnol i'r Senedd bennu yn y Rheolau Sefydlog y rhesymau sy'n gwneud person yn anghymwys i gael ei benodi'n Gomisiynydd.

[7] Dyma'r ail fater a godwyd gan y Comisiynydd y cyfeirir ato ym mharagraff 2 uchod.